# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Trafnidiaeth Cymru 2026-2030



TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Rhagair



## Geoff Ogden

**Prif Swyddog Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth Cymru**

Diogelu ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yw un o'n heriau mwyaf.

Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn cadarnhau bod yr argyfwng bioamrywiaeth yn parhau yn un o heriau hirdymor mwyaf Cymru. Ledled Cymru, mae llawer o'n rheilffyrdd, ein ffyrdd a'n llwybrau teithio llesol yn gartref i amrywiaeth gyfoethog o rywogaethau a chynefinoedd. Mae gennym gyfrifoldeb a chyfle unigryw i gyfrannu at yr ateb.

Rhaid i ni fanteisio ar bob cyfle i fabwysiadu ffyrdd mwy gwyrdd a chynaliadwy o weithio a chydnabod y rôl hanfodol y mae ein hamgylchedd naturiol yn ei chwarae o ran cefnogi dyfodol iachach a chadarnach am genedlaethau i ddod.

Mae gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn ganolog i'r uchelgais hon. Mae angen i ni warchod rhywogaethau, cynefinoedd a chysylltiadau ecolegol brodorol Cymru, gan gynnwys cefnogi bwydo, bridio, lloches a symudiadau bywyd gwyllt.

Fel darparwr trafnidiaeth ledled Cymru a'r gororau, rydyn ni mewn sefyllfa i gefnogi a gwella bioamrywiaeth ar raddfa ystyrlon.

Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yn nodi'r egwyddorion y bydd Trafnidiaeth Cymru yn eu dilyn i warchod, adfer a hyrwyddo bioamrywiaeth ac ecosystemau ar draws ein holl weithrediadau. Nid ymrwymiad untro yw hwn, ond dogfen fyw sy'n esblygu ac wedi'i chynllunio i addasu i dystiolaeth, polisi a blaenoriaethau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Drwy wreiddio byd natur ym mhopeth a wnawn, byddwn yn chwarae ein rhan i wrthdroi'r prosesau sy'n achosi i ni golli bioamrywiaeth, ac adeiladu Cymru wyrddach a mwy cynaliadwy.'

# Rhagair



## Laura James

Arweinydd Technegol Ecoleg a Bioamrywiaeth
Trafnidiaeth Cymru

Mae gan ein rhwydweithiau trafnidiaeth yng Nghymru rôl hanfodol i'w chwarae o ran diogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol.

Mae bywyd gwyllt 'Cymru' yn parhau i wynebu heriau difrifol. Mae'r data Sefyllfa Byd Natur yn dangos bod nifer y rhywogaethau daearol a dŵr croyw yng Nghymru wedi gostwng 20% ers 1994, tra bod un rhywogaeth o bob chwech bellach mewn perygl o ddiflannu'n llwyr. Mae rhywogaethau eiconig fel y gylfinir a llygoden bengron y dŵr wedi gweld gostyngiadau critigol. Ond mae'r darlun hefyd yn addawol: mewn rhai ardaloedd, mae rhywogaethau'n dychwelyd lle mae cynefinoedd wedi cael eu hadfer ac yn cael eu diogelu'n briodol.

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydyn ni'n credu y dylai trafnidiaeth gyfrannu'n weithredol at adferiad byd natur. Mae'r egwyddor honno'n ganolog i bopeth a wnawn, a bydd yn parhau felly. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yn rhan greiddiol o'n gweledigaeth ehangach o ran cynaliadwyedd.

Mae'n nodi sut byddwn yn gweithio i atal nifer y rhywogaethau rhag lleihau, atal colli cynefinoedd, a diogelu a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau ar draws pob rhan o'n gweithrediad, o gynnal a chadw traciau i ddylunio gorsafoedd, o reoli llystyfiant i bartneriaethau cymunedol.

Mae gennym gyfle a dyletswydd unigryw i fod yn rhan o wrthdroi'r dirywiadau hyn. Mae ein rheilffyrdd, ein harglodiau, ein toriadau, ein llethrau, ein gorsafoedd a'n tiroedd cysylltiedig yn plethu drwy dirweddau sy'n aml yn cael eu tanbrisio ond sy'n gyfoethog o ran bywyd gwyllt: coridorau sy'n cysylltu cynefinoedd darniog ar draws ein gwlad, llochesi i fflora a ffawna, a cherrig camu i fywyd gwyllt addasu i newid hinsawdd.

Gadewch i ni wneud trafnidiaeth yn rhan o'r ateb i fyd natur yng Nghymru.'



# Beth mae Cymru yn ei wneud heddiw, bydd y byd yn ei wneud yfory

**Nikhil Seth**
Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig



# Cyflwyniad
# Ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

**Mae ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn darparu fframwaith trosfwaol ar gyfer sut y byddwn yn gwarchod ac yn gwella cynefinoedd a rhywogaethau.**

Mae'r cynllun hwn yn rhan annatod o gyflawni ein gweledigaeth o fod yn gynaliadwy ar yr un pryd â darparu rhwydwaith trafnidiaeth eithriadol.

Bydd cydweithio ac ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn hanfodol er mwyn gwireddu'n llawn y manteision y gallwn eu cynnig i fywyd gwyllt fel rhan o'n gweithrediadau.

Mae'r cynllun hwn ar gyfer holl weithwyr Trafnidiaeth Cymru (TrC) a'n partneriaid, sydd naill ai'n gweithio'n uniongyrchol i warchod a gwella bioamrywiaeth, neu y gallai eu gwaith effeithio arno mewn rhyw ffordd.

Nodir camau gweithredu yn y cynllun hwn dros gyfnod o bum mlynedd. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol ac ar ddiwedd y cyfnod hwn gan y Tîm Datblygu Cynaliadwy.

Mae'r cynllun hwn yn cael ei gymeradwyo gan dîm arwain Trafnidiaeth Cymru ac mae'n cael ei gyfleu i bob gweithiwr. Bydd ar gael i'r cyhoedd ac i bartïon â diddordeb os gofynnir amdano.



# Beth yw Bioamrywiaeth?

Mae bioamrywiaeth yn derm i ddisgrifio'r cyfoeth a'r amrywiaeth o bethau byw sydd ar y ddaear, o famaliaid i bryfed, ffyngau a choed i flodau gwyllt, a'r cynefinoedd maen nhw'n byw ynddyn nhw a'r cymunedau maen nhw'n eu ffurfio.

Mae llesiant pawb - yn economaidd, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol - yn dibynnu ar ecosystemau iach a chadarn.

Mae'r amgylchedd naturiol yn darparu cyflogaeth ac yn cynnal cymunedau ledled Cymru. Mae miloedd yn gweithio ym meysydd ffermio, coedwigaeth, pysgodfeydd, twristiaeth a hamdden, ac mae'r rhain i gyd yn dibynnu ar adnoddau naturiol.

# Pwysigrwydd y Cynllun

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu ein bywyd gwyllt a'r amgylchedd yn briodol fel rhan o'n gwaith. Rydym yn darparu prosiectau ac yn berchen ar dir sy'n bwysig i fywyd gwyllt, yn ogystal â'i reoli – mae ymylon ffyrdd a rheilffyrdd er enghraifft, yn darparu mosaig cynefinoedd bioamrywiol gan eu bod fel arfer wedi cael llai o ymyrraeth ac aflonyddwch gan bobl. Ar ben hynny, maent yn darparu lefel brin o gysylltedd cynefinoedd ar raddfa tirwedd.

Felly, mae'n hanfodol ein bod yn chwarae ein rhan i helpu i ddiogelu, gwarchod a gwella bioamrywiaeth Cymru, a gosod targedau a chamau gweithredu clir i ddangos sut rydym yn gwneud hyn.

Mae cysylltiad cryf rhwng ein gwaith ar fioamrywiaeth a'n blaenoriaethau eraill, fel y nodir yn ein Hamcanion Llesiant.

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn helpu i leihau faint o ddeunyddiau crai newydd rydym yn eu defnyddio, lleihau ein hallyriadau carbon, helpu i greu amgylchedd mwy bioamrywiol, gwella a diogelu ein hadnoddau naturiol a chynyddu gwydnwch ecosystemau o ran effeithiau fel newid yn yr hinsawdd, rheoli cynefinoedd a llygredd.





# Bioamrywiaeth o dan fygythiad

Ers yr 1970au, mae'r pwysau cynyddol ar dirweddau a morweddau amrywiol Cymru wedi arwain at golledion ac enillion i fioamrywiaeth. Mae'r adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn dangos bod bywyd gwyllt Cymru, ar gyfartaledd, wedi dirywio yn ystod y degawdau diwethaf, gyda rhai rhywogaethau'n dirywio'n gyflym ac eraill yn diflannu.

Mae ein hamgylchedd naturiol dan bwysau sylweddol ac mewn perygl. Mae'r pwysau ar fywyd gwyllt yn dod o lawer o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys rheoli amaethyddol, trefoli, llygredd, newidiadau hydrolegol a phresenoldeb cynyddol rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

Mae newid hinsawdd hefyd yn achosi newidiadau eang i amrywiaeth, dosbarthiad ac ecoleg bywyd gwyllt Cymru, a bydd yn parhau i wneud hynny am ddegawdau i ddod.

Mae angen i ni weithredu nawr er mwyn i genedlaethau'r dyfodol allu cael mynediad at aer glân, dŵr, bwyd, deunyddiau crai a chyfleoedd i fwynhau natur.

20%

gostyngiad cyfartalog ym mywyd gwyllt Cymru er 1994.



43%

dirywiad mewn rhywogaethau gwyfynod.

18%

o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu o Gymru.

State of Nature https://stateofnature.org.uk/)

# Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau

Mae amcanion a nodau'r cynllun hwn wedi cael eu llywio a'u harwain gan ddeddfwriaeth, cynlluniau a pholisi bywyd gwyllt perthnasol (gweler Atodiad 1) gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn cydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, a'r camau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd (gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am seilwaith trafnidiaeth) er mwyn diogelu a gwella'r rhain yng Nghymru.

Byddwn yn adrodd ar ein cydymffurfiaeth, ein camau gweithredu a'n cynnydd o ran ein targedau a'n nodau bioamrywiaeth i Lywodraeth Cymru, o dan Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau yn Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru a, phan fydd angen, yn adlewyrchu newidiadau yn y fframwaith rheoleiddio.





"Yn fyd-eang, mae tua 1 miliwn o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid bellach mewn perygl o ddiflannu'n llwyr. Gan adlewyrchu'r duedd fyd-eang hon, mae bywyd gwyllt Cymru yn parhau i ddirywio, yn bennaf oherwydd y ffordd rydyn ni'n rheoli ein tir ar gyfer amaethyddiaeth, effeithiau newid yn yr hinsawdd, llygredd, gor-ecsbloetiaeth a rhywogaethau goresgynnol. Mae colli byd natur fel hyn yn bygwth gwydnwch ecosystemau a gallu natur i gefnogi ein cymdeithas a'n llesiant, a sut mae natur yn gallu addasu i newid yn yr hinsawdd a lliniaru hynny."

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Cyfoeth Naturiol Cymru.

# Nodau ac amcanion

Nod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn yw darparu trosolwg strategol ar gadwraeth bioamrywiaeth yn Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar bum prif amcan:

1. Diogelu a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau
2. Cyfathrebu a thryloywder
3. Prif-ffrydio arferion gorau
4. Cydweithio
5. Cefnogi mentrau bioamrywiaeth



# Diogelu a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

**Byddwn yn sicrhau bod unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth ac ecosystemau yn cael eu hasesu a'u lliniaru'n briodol.**

Yn unol â'r Ddyletswydd ar Fioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, byddwn yn sicrhau bod dulliau priodol ar waith i warchod rhag colli bioamrywiaeth, sicrhau cyfleoedd i wella a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau yn ein gweithrediadau.

Rhaid asesu unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth yn briodol ac, os na ellir osgoi'r rhain, rhaid eu lliniaru'n briodol. Byddwn yn sicrhau na fydd bioamrywiaeth yn cael ei cholli'n gyffredinol o ganlyniad i'n gweithrediadau a byddwn yn defnyddio dulliau ac arweiniad priodol i gynyddu a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol drwy gydol ein gweithrediadau.

Byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion hyn yn ein polisïau, ein strategaethau a'n gweithgareddau busnes bob dydd. Bydd elfennau creiddiol i gyflawni hyn yn y tymor hir yn cynnwys:

**Casglu a rhannu data**
Fel rhan o'n 'cronfa ddata asedau' sy'n tyfu (ac sy'n casglu amrywiaeth eang o ddata perthnasol arall yn ein rhwydwaith) rydym yn gallu sefydlu gwaelodlin bioamrywiaeth yn well a deall yr hyn sydd gennym ar hyn o bryd, yr hyn y mae angen i ni ei ddiogelu, y gallai effeithio arno neu y gallwn ei wella.

Mae hyn yn cynnwys gallu nodi meysydd lle gellir gwireddu nifer o fanteision amgylcheddol. Er enghraifft, fel rhan o fesurau addasu i'r newid yn yr hinsawdd mae ein timau'n gweithio arnynt.

Yn ogystal â dadansoddi cynefinoedd gan ddefnyddio arolygon desg, data lloeren a drôn, byddwn yn defnyddio ffynonellau perthnasol eraill o ddata ecolegol o ganolfannau cofnodion amgylcheddol a chronfeydd data mynediad agored. Bydd hyn yn ei dro yn cael ei ategu gan waith dilysu yn ystod teithiau cerdded ar y safle, er mwyn ailasesu a diweddaru ein data cynefinoedd a rhywogaethau.

**Rheoli gwybodus**
Yn y tymor hwy, ein huchelgais yw integreiddio mesurau rheoli sy'n sicrhau'r manteision ecolegol mwyaf posibl ar draws ein rhwydwaith fel rhan o waith rheoli llystyfiant arferol. Mae hyn yn cynnwys amseru gweithredoedd torri, lleihau plaladdwyr, bôn-docio a chreu nodweddion cynefin ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau.





# Cyfathrebu a thryloywder

**Rydym yn addo cyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd am y gwaith rydym yn ei wneud a pham..**

Mae bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch ein gweithrediadau yn bwysig er mwyn i bawb ddeall beth, pryd, sut a pham rydyn ni'n gwneud gwaith.

Er enghraifft, er mwyn sicrhau cyfanrwydd y rhwydwaith, mae'n rhaid i ni weithiau dynnu coed a llystyfiant sy'n peri risg i'n seilwaith trafnidiaeth.

Rydym yn cydnabod yr effaith y mae hyn yn ei chael ar fioamrywiaeth a sut y gall hyn effeithio ar bobl eraill, gan gynnwys ein cymdogion wrth ochr y rheilffordd.

Byddwn yn glir ac yn dryloyw ynghylch hyd, graddfa a'r rhesymau dros ein gweithrediadau a'r gwaith cysylltiedig. Bydd y rhain yn cael eu cyfleu drwy amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys dolenni ar ein gwefan a thrwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol. Bydd y rhain yn cynnwys gwybodaeth fanwl am beth i'w ddisgwyl, a sut mae unrhyw ran benodol o'n gwaith yn gysylltiedig â'r cynllun hwn.

Drwy weithio gyda'n cymdogion wrth ochr y rheilffordd ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, gallwn weithio'n well, gyda'n gilydd, i gyflawni ein nodau bioamrywiaeth.

# Prif ffrydio arferion gorau

**Rydym yn prif ffrydio bioamrywiaeth yn ein gweithrediadau fel mater o drefn, bob amser yn seiliedig ar arferion gorau.**

Byddwn yn prif ffrydio bioamrywiaeth yn ein penderfyniadau a'n gweithrediadau fel mater o drefn. Mae dulliau llywodraethu wedi'u gwreiddio a'u cymeradwyo ar lefel Bwrdd, adran a phrosiect. Bydd hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei chynnwys ochr yn ochr â chyflawni ein gwaith adeiladu a chynnal a chadw a rheoli asedau, ar yr un pryd â sicrhau bod amodau iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni.

Bydd egwyddorion arferion gorau sylfaenol ar gyfer ecoleg a bioamrywiaeth yn cael eu defnyddio yn ein gweithrediadau, gan ddefnyddio'r hierarchaeth lliniaru bob amser ym mhob achos:

Drwy ddefnyddio'r dull hwn, gallwn reoli ein risgiau amgylcheddol yn well drwy gynllunio, monitro, adolygu a (lle bo'n briodol) newid ein gweithredoedd.

Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i wella gwydnwch ein hecosystemau fel rheoli llystyfiant a phlannu coed.

Wrth wneud hyn, byddwn hefyd yn edrych ar gyfleoedd i integreiddio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ecosystem ehangach, fel rheoli carbon, dŵr a llifogydd.

**Osgoi >> Lleihau >> Lliniaru >> Gwrthbwyso**

Bydd hyfforddiant ar gyfer ein staff a'n contractwyr yn rhan annatod o'r amcan hwn, gydag adnoddau priodol yn eu lle ar gyfer yr holl staff sydd ei angen.

Bydd ein rheolwyr asedau tir, ein peirianwyr a'n staff rheng flaen yn cael eu cynghori a'u hyfforddi i adnabod cyfleoedd rheoli cynefinoedd a risgiau i fioamrywiaeth.

Drwy weithio'n agos gyda'n staff a'n rhanddeiliaid i gefnogi newid, byddwn yn creu newid mewn diwylliant lle mae bioamrywiaeth yn cael ei choleddu ar bob lefel.

Yn unol â nodau Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol TrC, byddwn ni (lle bo'n berthnasol) yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i gadw a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau. Bydd ein strategaethau caffael yn ystyried bioamrywiaeth ochr-yn-ochr â ffactorau amgylcheddol eraill, gan sicrhau ymrwymiadau gan y gadwyn gyflenwi ble y gallai bioamrywiaeth gael ei heffeithio gan eu gwaith.



# Ein prosiectau: Llinellau Craidd y Cymoedd

Mae cynnwys bioamrywiaeth yn rhan annatod o reoli llystyfiant a phrotocolau safonol ar Linellau Craidd y Cymoedd.

Er enghraifft, amlder ac amseru gwaith torri, ardaloedd hollbwysig i'w diogelu a chyfleoedd i wella.

Mae hyn yn cynnwys dulliau rheoli a dulliau rheoli hirdymor wedi'u targedu a'u priodoli a bioddiogelwch fel safon ar gyfer rhywogaethau a chlefydau anfrodorol goresgynnol.

Er enghraifft, mae clefyd coed ynn (sef Hymenoscyphus fraxineusis) yn glefyd ffwngaidd cronig a all difa 90% o'r coed ynn.





# Cydweithio ac ymgysylltu

**Mae cydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, sefydliadau bywyd gwyllt a chymunedau lleol yn hynod werthfawr ac yn hanfodol i sicrhau hirhoedledd a llwyddiant parhaus unrhyw waith cadwraeth bioamrywiaeth a wnawn nawr, ac yn y dyfodol.**

Gan weithio'n agos gydag eraill, gallwn wneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus sy'n cael mwy o effaith. Er enghraifft, gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cadwraeth natur lleol i rannu data, sicrhau'r manteision gorau posibl a chyflawni nodau cyffredin yn fwy effeithiol.

Rydym yn gweithio'n agos gyda chyrff, sefydliadau a grwpiau allweddol, gan gynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Partneriaid Cymunedol
- Grwpiau rhywogaethau anfrodorol goresgynnol
- Grwpiau Cadwraeth Natur Lleol
- Ymddiriedolaethau Natur
- Ymddiriedolaethau Afonydd
- Network Rail

Rydym hefyd yn cymryd rhan yn Rheilffyrdd Cymunedol; strategaeth gan y llywodraeth sydd â'r nod o gynnwys pobl leol wrth ddatblygu a gwella amgylchedd y rheilffyrdd.

Mae Partneriaethau Cymunedol yn grwpiau o bobl ymroddedig sy'n gweithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd ac awdurdodau lleol i hyrwyddo rheilffyrdd ac i wella gorsafoedd, gwasanaethau a mynediad.

Drwy hyn gallwn wella ein dealltwriaeth o anghenion ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol, ac fe fydd hynny'n cael dylanwad cadarnhaol ar ein gwaith.

# Ein prosiectau: Mabwysiadwyr Gorsafoedd

Mae ein cynllun Mabwysiadu Gorsaf yn ceisio gwella cysylltiadau a pherthnasoedd â chymunedau lleol sy'n agos i orsafoedd trenau.

Drwy'r partneriaethau hyn, gallwn hyrwyddo'r defnydd o fannau a seilweithiau gwyrdd yn ein gorsafoedd neu o'u cwmpas. Rydym yn bwriadu cynyddu nifer y gorsafoedd sydd wedi'u mabwysiadu.

Mae gennym nifer o enghreifftiau gwych lle mae gwirfoddolwyr yn cynnal eu gorsaf i safon uchel iawn, gan gynnwys ennill gwobrau cenedlaethol.



# Cefnogi mentrau bioamrywiaeth

**Mae ein hymrwymiad i fioamrywiaeth yn ymestyn y tu hwnt i wneud yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud – rydym eisiau gwneud popeth o fewn ein gallu i gynyddu bioamrywiaeth. Rydym eisiau bod yn arweinydd mewn rhwydweithiau trafnidiaeth trefol a gwledig, a hyrwyddo Cymru fel cyrchfan dwristiaeth gynaliadwy o'r radd flaenaf.**

Byddwn yn parhau i fuddsoddi a chefnogi amrywiaeth o fentrau bioamrywiaeth, fel:

- Cefnogi a threialu datblygiadau mewn arloesedd ecolegol gan gynnwys offer monitro o bell, dulliau amgen o reoli rhywogaethau goresgynnol ac adnabod rhywogaethau deallusrwydd artiffisial.
- Nodi cyfleoedd i sicrhau'r manteision bioamrywiaeth mwyaf posibl ar ein hasedau tir a fydd yn arwain at fudd mesuradwy. Er enghraifft, adfer ecosystemau sydd wedi dirywio a phlannu gwrychoedd fel ffensys ffin newydd fel strwythurau ffin amgen lle bo hynny'n bosibl.
- Treialu a gosod seilwaith gwyrdd prototeip sydd wedi'i ddylunio ar gyfer lleoliadau rheilffyrdd.
- Cydweithio â sefydliadau academaidd a'u cefnogi i ymchwilio i gwestiynau pwysig yng nghyswllt bioamrywiaeth mewn amgylcheddau rheilffyrdd.
- Gweithio ar amrywiaeth o fentrau sydd â'r nod o ddiogelu pryfed peillio, gan gynnwys lleihau plaladdwyr a defnyddio dulliau plannu sy'n gyfeillgar i bryfed peillio mewn cynlluniau tirlunio.
- Dyrannu cyllid ar gyfer mentrau bioamrywiaeth allanol i gefnogi sefydliadau anllywodraethol, elusennau a sefydliadau academaidd i weithredu mentrau bioamrywiaeth o fewn ein rhwydwaith ac o'i amgylch.



# Atodiad 1: Deddfwriaeth, polisi a chanllawiau

Deddfwriaeth, cynlluniau a pholisïau allweddol y DU ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth yng Nghymru a'r DU



# Deddfwriaeth, polisi neu ddogfen ganllaw

| Deddfwriaeth/Polisi | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** | Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn sefydlu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Y nod yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn ffordd a chyfradd sy'n diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb amharu ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd bwysicaf at ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru. Mae adran 7 o'r Ddeddf yn disodli'r ddyletswydd yn adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. |
| **Fframwaith DECCA** | O dan Ddyletswydd Adran 6 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau yng nghyswllt Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso gwydnwch ecosystemau ar sail pum priodoledd ac eiddo a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru). Cyfeirir at hyn fel DECCA: Amrywiaeth, Graddfa, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau ar wydnwch ecosystemau. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Y pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor, ac Atal. Ers mis Mehefin 2024 ymlaen, mae TrC yn gorff cyhoeddus cydnabyddedig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFGA) ac erbyn hyn mae ganddo'r cyfrifoldeb cyfreithiol i wreiddio'r Ddeddf drwy ein prosesau, ein gweithrediadau, ein pobl a'n diwylliant bob dydd. |

| Deddfwriaeth/Polisi | Disgrifiad |
|---|---|
| | Yr hyn sy'n arbennig o berthnasol yw cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu o dan nod Cymru Gydnerth: 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid' |
| **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)** | Cyflwynwyd y Bil gerbron y Senedd ym mis Mehefin 2025. Nod y darpariaethau ar egwyddorion amgylcheddol yw sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â thair her graidd: mynd i'r afael effaith gyfunol argyfyngau hinsawdd a natur, amddiffyn yr amgylchedd rhag niwed, ac ymateb i newidiadau mewn strwythurau llywodraethu amgylcheddol yn dilyn ymadawiad y DU o'r UE.<br><br>Prif ddibenion y Bil yw:<br><br>- Sefydlu egwyddorion amgylcheddol ac amcan amgylcheddol<br>- Sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol annibynnol, sef Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru<br><br>- Sefydlu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth gyda'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru |
| **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)** | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yw'r prif ddull ar gyfer amddiffyn anifeiliaid, planhigion a chynefinoedd yn y DU yn ddeddfwriaethol. Mae hyn yn cynnwys atal planhigion goresgynnol rhag lledaenu yn y gwyllt, wedi'i restru o dan Atodlen 9 i'r Ddeddf. |

| Deddfwriaeth/Polisi | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd** | Mae Cyfarwyddeb Cynefinoedd 1992 (Cyfarwyddeb 92/43/EEC) yn nodi'r fframwaith cyfreithiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau'r UE ddiogelu safleoedd cynefin sy'n cynnal rhywogaethau bregus a gwarchodedig, fel y'i rhestrir yn y Gyfarwyddeb. Mae'r angen am asesiad o'r effeithiau ar safleoedd Natura 2000 (enw cyfunol safleoedd dynodedig Ewropeaidd, gan gynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) wedi'i nodi yn Erthygl 6 y Gyfarwyddeb. Mae'r Gyfarwyddeb yn cael ei throsi i gyfraith y DU drwy Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017) (y "Rheoliadau Cynefinoedd") a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). |
| **Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019** | Mae'r Gorchymyn hwn yn caniatáu gorfodi Rheoliad Rhywogaethau Estron Goresgynnol 1143/2014 yr UE ar atal a rheoli rhywogaethau goresgynnol estron o blanhigion ac anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y trwyddedau, y caniatâd a'r rheolau perthnasol ar gyfer cadw rhywogaethau goresgynnol estron. Mae'r rhain yn rhywogaethau sy'n peri risg o effeithiau niweidiol ledled y DU, fel bod angen gweithredu wedi'i dargedu ledled y DU. |
| **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017** | Mae'r rheoliadau'n nodi gweithdrefn ar gyfer nodi'r prosiectau hynny a ddylai fod yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ac ar gyfer asesu, ymgynghori a dod i benderfyniad ar y prosiectau hynny sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol ar fioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, pridd, hinsawdd, dŵr a thirwedd. |
| **Polisi Cynllunio Cymru 2018** | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (gan gynnwys bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol) fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a deddfwriaeth allweddol arall. |

| Deddfwriaeth/Polisi | Disgrifiad |
|---|---|
| | Mae Pennod 6 bellach yn mynnu bod datblygiadau'n sicrhau budd net i fioamrywiaeth, gan nodi: 'na ddylai datblygiad achosi colli cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau yn sylweddol, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo ddarparu budd net i fioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau cynllunio hefyd ystyried a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.' |
| **Fframwaith 30x30 i Gymru** | Gelwir 30x30 hefyd yn Darged 3 Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (GBF) y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol, y cytunwyd arno gan 196 o wledydd, gan gynnwys Cymru drwy'r DU. Mae'n rhan o Gynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Mae'n cynnwys set o feini prawf y mae angen i ardaloedd yr adroddir arnynt o dan y targed 30 erbyn 3030 eu bodloni, sy'n cyd-fynd â gofynion y GBF Kunming-Montreal a'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN). |
| **Polisi Adnoddau Naturiol 2017** | Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol hwn yn canolbwyntio ar wella'r ffordd mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli. Mae hyn yn rhan allweddol o'r fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae hefyd yn hanfodol os yw cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol am barhau i fwynhau'r manteision y maent yn eu darparu. O'r herwydd, mae hefyd yn allweddol at gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Confensiwn 1992 Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol** | Cytundeb byd-eang i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ystyried y Confensiwn wrth arfer eu swyddogaethau ac mae dyletswydd arnynt i warchod bioamrywiaeth. |
| **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025** | Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi cyflwr adnoddau naturiol Cymru ac yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth yn yr adroddiad cyntaf a'r ail adroddiad. Mae'r adroddiad yn dangos rhai o'r heriau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. |

| Deddfwriaeth/Polisi | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynllun Adfer Natur Cymru** | Yn integreiddio ac yn adlewyrchu Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â'r dystiolaeth, y blaenoriaethau, yr amcanion a rhwymedigaethau adrodd Llywodraeth Cymru, gweithredoedd rhanddeiliaid ar fioamrywiaeth ac yn nodi'r camau pellach sydd eu hangen yn y tymor byr a'r tymor hir. |

